# Polisi Iaith Gymraeg

## Cynnwys

1 Cyflwyniad ........ 3
2 Cyflenwi Gwasanaethau ........ 3
3 Llunio polisïau ........ 13
4. Defnydd mewnol o'r Gymraeg ........ 14
5. Cwynion am Safonau'r Gymraeg ........ 18
6. Monitro ac adrodd ........ 19
7. Adolygu ........ 19

# 1 Cyflwyniad

1.1. Yn OGCC, rydym am hybu'r Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ein hunain, sydd i'w gweld yma.

1.2. Mae'r polisi hwn yn disgrifio sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan y Safonau, i wneud yn siŵr ein bod fel darparwr gwasanaeth a chyflogwr

- ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- yn mynd ati'n rhagweithiol i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

1.3. Ein Tîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfeiriad strategol a llywodraethu'r swyddfa. Mae ein Prif Swyddog Gweithredu a'n Cyfarwyddwr Gwella yn sicrhau bod rheoli gweithredol yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, statudol a chanllawiau ymarfer da mewn perthynas â'r Safonau. Ein Tîm Gwella sy'n gyfrifol am y Gymraeg o ddydd i ddydd. Ein Pennaeth Polisi, Cyfathrebu ac EDI sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am adrodd ar sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau.

# 2 Cyflenwi Gwasanaethau

## 2.1. Ymrwymiadau cyffredinol

2.1.1. Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn ymwybodol bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

2.1.2. Byddwn yn monitro faint o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn Gymraeg.

2.1.3. Byddwn yn ceisio cymryd camau i ddeall dewis iaith ein cwsmeriaid yn well i wella sut yr ydym yn hyrwyddo ein gwasanaeth yn Gymraeg.

## 2.2. Gohebiaeth

2.2.1. Mae'r adran hon yn cyfeirio at bob gohebiaeth drwy'r post ac e-bost.

2.2.2. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Os bydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

2.2.3. Os bydd rhywun yn ysgrifennu atom neu'n cyflwyno cwyn yn Gymraeg, byddwn yn tybio mai dyna yw'r iaith o'u dewis a byddwn yn cyfathrebu â hwy yn Gymraeg o hynny ymlaen, oni bai eu bod yn dweud yn wahanol. Os bydd rhywun yn ysgrifennu atom neu'n cyflwyno cwyn yn Saesneg, byddwn yn ymateb yn Saesneg ond byddwn yn cynnwys ein datganiad yn yr ohebiaeth ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

2.2.4. Hyd nes y byddwn yn gwybod pa iaith a ffefrir gan bobl, byddwn yn ysgrifennu atynt yn ddwyieithog. Pan fyddwn yn gohebu yn Gymraeg a Saesneg, ni fyddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

2.2.5. Os byddwn yn cynnwys unrhyw atodiadau, mi fyddant yn ddwyieithog os ydynt yn cyd-fynd â gohebiaeth ddwyieithog, ac yn Gymraeg os byddwn yn ysgrifennu at rywun yn Gymraeg. Yr unig eithriad i hyn fydd pan fydd atodiad wedi'i gynhyrchu gan drydydd parti ac nad oes fersiwn Gymraeg ar gael.

2.2.6. Os byddwn yn ysgrifennu at rywun am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent inni ysgrifennu atynt yn Gymraeg. Os mai dyna yw eu dewis, byddwn yn cofnodi'r dewis hwnnw ac yn ysgrifennu atynt yn Gymraeg o hynny ymlaen.

2.2.7. Os ydym yn ymchwilio i achos lle mae mwy nag un achwynydd, byddwn fel arfer yn gohebu â'r prif achwynydd yn yr iaith o'u dewis. Os, fodd bynnag, y byddwn yn anfon gohebiaeth am y tro cyntaf wedi'i chyfeirio at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd, byddwn yn nodi y gall pob unigolyn ddewis cael gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn cadw cofnod o'u dewis ac yn gohebu â hwy yn Gymraeg neu Saesneg, fel bydd yn briodol, o hynny ymlaen.

2.2.8. Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl unigolyn, byddwn yn eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r fersiwn Gymraeg yn ymddangos gyntaf.

2.2.9. Bydd pob gohebiaeth copi caled Cymraeg (gan gynnwys gohebiaeth e-bost allanol) a anfonir gennym yn dangos llofnod electronig dwyieithog.

## 2.3. Teleffon

2.3.1. Gall pobl sy'n ein ffonio siarad â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Pan fydd rhywun yn ffonio ein prif rif ffôn, byddant yn cael eu cyfarch yn Gymraeg.

2.3.2. Bydd y rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg yr un fath â'r un ar gyfer y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

2.3.3. Pan fydd rhywun yn ffonio Tîm y Dderbynfa (hynny yw, ein gwasanaeth

rheng flaen) byddant yn clywed neges ddwyieithog awtomatig gyda dewis i barhau yn Gymraeg neu Saesneg. Os byddant yn dewis yr opsiwn Cymraeg, bydd yr alwad yn cael ei chyfeirio at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd ein prif rif ffôn yn defnyddio neges ddwyieithog ar y peiriant ateb.

2.3.4. Pan fydd rhywun yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad am fater penodol yn Gymraeg, ond nad yw'r sawl sy'n ateb yr alwad yn gallu gwneud hynny, bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo i gydweithiwr Cymraeg eu hiaith a fydd yn gallu helpu. Ni fyddwn yn delio â'r alwad honno yn Saesneg oni bai nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

2.3.5. Os byddwn yn ffonio rhywun am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent inni ddefnyddio Cymraeg dros y ffôn. Os mai dyna yw eu dewis, byddwn yn ei gofnodi ac yn cyfathrebu â hwy yn Gymraeg o hynny ymlaen.

## 2.4. Cyfarfodydd (nad ydynt yn agored i'r cyhoedd)

2.4.1. Pan fyddwn yn gwahodd pobl i gyfarfod, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

2.4.2. Os bydd rhywun a wahoddir i gyfarfod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg (oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).

2.4.3. Ni fyddwn yn dilyn y camau a ddisgrifir uchod os bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal y tu allan i Gymru neu'n cael ei drefnu ar gyfer pobl sydd wedi'u

lleoli y tu allan i Gymru.

## 2.5. Cyfarfodydd (cyhoeddus)

2.5.1. Pan fyddwn yn gwahodd pobl i gyfarfod cyhoeddus, byddwn yn gofyn i bawb a wahoddwyd ac i'r siaradwyr gwadd a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Byddwn yn eu hysbysu bod modd darparu gwasanaeth cyfieithu o Gymraeg i Saesneg os bydd angen.

2.5.2. Os bydd rhywun a wahoddwyd neu siaradwr gwadd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod hwnnw (oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd).

2.5.3. Pan fyddwn yn anfon gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus, byddwn yn nodi ein bod yn croesawu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg yn ystod y cyfarfod.

2.5.4. Ar ddechrau cyfarfod cyhoeddus, byddwn yn hysbysu pawb sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

2.5.5. Bydd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'n cyfarfodydd (e.e., gwahoddiadau, hysbysebion a chyflwyniadau) yn ddwyieithog.

2.5.6. Ni fyddwn yn dilyn y camau a ddisgrifir uchod os bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal y tu allan i Gymru neu'n cael ei drefnu ar gyfer pobl sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

## 2.6. Cyhoeddiadau cyffredinol

2.6.1. Pan fyddwn yn cynhyrchu fersiwn Gymraeg o ddogfen a fersiwn Saesneg ar wahân o'r ddogfen honno, byddwn yn sicrhau bod y bod y fersiwn Saesneg yn nodi'n glir bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg hefyd.

2.6.2. Bydd y cyhoeddiadau cyffredinol canlynol ar gael yn Gymraeg bob amser:

- dogfennau gwybodaeth neu ganllaw, (er enghraifft, llyfrynnau, taflenni, pamffledi)
- polisïau a gyhoeddir yn allanol
- strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol
- canllawiau a chodau ymarfer
- papurau ymgynghori

2.6.3. Os na fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen, bydd y fersiynau yn y ddwy iaith o'r un maint ac ansawdd ac yr un mor hygyrch. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi gyntaf bob tro.

2.6.4. Pan fyddwn yn trefnu arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a byddwn yn gwneud yn siŵr bod ymatebwyr yn gallu ymateb yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.

2.6.5. Pan fyddwn yn trefnu ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw fater, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn nodi'r

glir ein bod yn croesawu ymatebion yn Gymraeg.

## 2.7. Ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig

2.7.1. Bydd yr holl ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gennym (er enghraifft, ffurflenni cwyno), ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni rhagweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

2.7.2. Bydd y fersiwn Saesneg o'n ffurflenni'n nodi'n glir

- bod y ffurflenni ar gael yn Gymraeg hefyd.
- na fydd cwblhau'r ffurflenni yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

2.7.3. Bydd pob ffurflen a gyhoeddir gennym yn cynnwys yr un gofynion yn Gymraeg a Saesneg.

## 2.8. Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau

2.8.1. Pan fyddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru, byddwn yn eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi gyntaf. Bydd y fersiwn Saesneg o'r datganiad i'r wasg yn nodi bod fersiwn Gymraeg ar gael.

2.8.2. Pan fyddwn yn cael ymholiad penodol gan y cyfryngau yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg.

2.8.3. Pan yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg. Byddwn

yn adolygu ein hanghenion hyfforddi'n rheolaidd ac yn cynnig unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i wneud yn siŵr bod gennym aelodau o staff a all gymryd rhan mewn cyfweliadau yn Gymraeg â'r cyfryngau.

2.8.4. Os oes siaradwr Cymraeg ar gael i gymryd rhan mewn cyfweliad ar fater penodol, byddwn yn nodi hynny yn y datganiad i'r wasg.

## 2.9. Gwefan a chyfryngau cymdeithasol

2.9.1. Bydd ein gwefan a'r tudalennau rhyngweithiol sydd arni ar gael yn ddwyieithog. Bydd defnyddwyr yn gallu newid yn uniongyrchol rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg o bob tudalen.

2.9.2. Bydd cynnwys newydd a diweddariadau ar y wefan yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.

2.9.3. Pan fyddwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn rhedeg un cyfrif dwyieithog ar gyfer pob sianel.

2.9.4. Byddwn bob amser yn cyhoeddi cynnwys yn Gymraeg gyntaf. Dau eithriad i hyn fydd os:

- ydym yn bwriadu 'pinio' post trydar – yn yr achos hwnnw byddwn yn cyhoeddi'r post hwnnw'n ddwyieithog
- byddwn yn rhannu cynnwys trydydd parti sydd ar gael yn Saesneg yn unig. Os yn bosibl, byddwn bob amser yn ymdrechu i ychwanegu ein sylwadau'n ddwyieithog at y cynnwys hwnnw, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

2.9.5. Os bydd rhywun yn cysylltu â ni yn Gymraeg ar gyfryngau

cymdeithasol, byddwn yn ateb yn Gymraeg.

## 2.10. Fideos

2.10.1. Pan yn bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i recordio cyfraniadau fideo.

2.10.2. Pan fyddwn yn cynhyrchu fideos gyda chyfraniadau yn Saesneg yn unig, byddwn bob amser yn cynhyrchu fersiwn gydag isdeitlau Cymraeg.

## 2.11. Hunaniaeth Gorfforaethol ac arwyddion

2.11.1. Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg ar yr holl ddeunydd cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu a deunyddiau fel cardiau busnes, bathodynnau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch a gwahoddiadau.

2.11.2. Pan fyddwn yn codi arwydd neu hysbysiad newydd neu'n adnewyddu arwydd neu hysbysiad (gan gynnwys arwyddion dros dro), y tu allan neu yn y rhannau cyhoeddus o'n swyddfeydd, bydd yr arwydd yn ymddangos yn Gymraeg a Saesneg (naill ai ar yr un arwydd neu ar arwyddion ar wahân). Byddwn yn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod y testun Cymraeg wedi'i leoli fel y bydd yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

## 2.12. Gwasanaeth y dderbynfa

2.12.1. Nid ydym yn gweithredu gwasanaeth derbynfa sy'n cael ei staffio. Fodd bynnag, mae arwydd yn cael ei arddangos yn ein derbynfa sy'n nodi bod croeso i bobl ddefnyddio Cymraeg yn y dderbynfa. Os yw rhywun yn dymuno siarad Cymraeg, mi fyddwn yn trefnu bod swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael.

2.12.2. Byddwn yn adolygu ein hanghenion hyfforddi'n rheolaidd ac yn cynnig unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i wneud yn siŵr bod gennym aelodau o staff a all ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.

## 2.13. Gwahoddiadau i dendro

2.13.1. Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog.

2.13.2. Ni fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg. Bydd yr holl fanylion, gofynion ac ymrwymiadau, fel y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau neu'r amserlen ar gyfer hysbysu'r sawl sy'n tendro o'n penderfyniad yr un fath yn achos tendrau a gyflwynir yn Gymraeg a Saesneg.

2.13.3. Byddwn yn nodi'n glir yn y gwahoddiad i dendro bod modd cyflwyno tendrau yn Gymraeg ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

2.13.4. Os cawn dendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld y sawl sy'n tendro fel rhan o'n hasesiad o'r tendr, byddwn yn gofyn i'r sawl sy'n tendro a ydynt yn dymuno cael eu cyfweld yn Gymraeg. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r diben hwnnw os bydd angen, oni bai bod modd cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb yr angen am wasanaeth

cyfieithu ar y pryd.

2.13.5. Pan fyddwn yn hysbysu'r sawl sy'n tendro o fy mhenderfyniad yn achos tendr, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cafodd y tendr ei gyflwyno yn Gymraeg.

## 3 Llunio polisïau

**3.1** Pan fyddwn yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu ddiwygio polisi presennol, byddwn yn asesu effaith bositif neu negyddol y polisi newydd neu ddiwygiedig ar

- cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

**3.2** Byddwn hefyd yn ystyried sut y dylid llunio polisi newydd, neu bolisi presennol sy'n cael ei adolygu neu ei ddiwygio i leihau'r effaith negyddol a chynyddu'r effaith bositif ar:

- cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

**3.3** Byddwn yn gweithredu'r egwyddorion hyn wrth gyhoeddi unrhyw ddogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi a phan fyddwn yn comisiynu neu'n gwneud ymchwil sydd â'r nod o'n helpu i wneud penderfyniad polisi.

**3.4** Byddwn yn ystyried y materion hyn fel rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisïau newydd a phresennol. Mae ein Polisi a'n Gweithdrefnau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar ein gwefan

yma.

# 4. Defnydd mewnol o'r Gymraeg

## 4.1. Recriwtio

4.1.1 Bydd pob swydd wag yn ein swyddfa'n cael ei hasesu i benderfynu a yw'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y rôl.

4.1.2 Bydd yr holl gyfathrebu cyhoeddus sy'n ymwneud â recriwtio staff yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn cyhoeddi mewn cyfryngau y tu allan i Gymru ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn Gymry.

4.1.3 Pan fyddwn yn hysbysebu swydd, byddwn yn nodi'n glir na fyddwn yn trin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol nag y byddwn yn trin cais a wneir yn Saesneg.

4.1.4 Byddwn yn sicrhau bod ein proses ymgeisio'n rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu yn ystod unrhyw ddull asesu arall; gan egluro y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o Gymraeg i Saesneg i'r diben hwnnw os bydd angen. Os bydd swydd yn cynnwys cyflawni gwaith yn Gymraeg **a** Saesneg, defnyddir y ddwy iaith mewn asesiadau a chyfweliadau.

4.1.5 Pan fyddwn yn hysbysu ymgeisydd llwyddiannus o'n penderfyniad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cafodd y cais ei wneud yn Gymraeg.

## 4.2. Dogfennau a gohebiaeth Adnoddau Dynol

4.2.1. Gall unrhyw aelod o staff gael eu contract neu ohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth, sydd wedi'i gyfeirio atynt yn bersonol, yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

4.2.2. Pan fyddwn yn cynnig swydd newydd i rywun, byddwn yn gofyn iddynt a hoffent gael eu contract cyflogi yn Gymraeg. Os mai dyna yw eu dymuniad, mi gânt y contract yn Gymraeg.

4.2.3. Byddwn yn gofyn i bob aelod o staff ar adeg eu penodiad a hoffent gael unrhyw ohebiaeth papur sy'n ymwneud â'u cyflogaeth (ac sydd wedi'i gyfeirio atynt yn bersonol) yn Gymraeg. Gall pob aelod o staff newid y dewis hwn ar unrhyw adeg.

4.2.4. Gall staff ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg i gofnodi ac i gael awdurdodaeth ar gyfer y canlynol:

- gwyliau blynyddol
- absenoldeb o'r gwaith
- oriau gweithio hyblyg

## 4.3. Polisïau staff

4.3.1. Bydd pob polisi sy'n ymwneud â chyflogaeth a materion hanfodol fel Iechyd a Diogelwch ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

4.3.2. Gall pob aelod o staff gyflwyno cwynion yn Gymraeg neu Saesneg ac ymdrinnir â phob achos yn yr iaith o ddewis yr aelod o staff.

4.3.3. Mae gan bob aelod o staff yr hawl i ddelio ag unrhyw faterion disgyblu neu gwynion yn Gymraeg neu Saesneg.

4.3.4. Mae'r prosesau hyn wedi'u disgrifio yn ein Polisi Disgyblu a'n Polisi Cwyno.

## 4.4. Hyfforddiant

4.4.1. Byddwn yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg y staff, a byddwn yn ei ddiweddaru bob blwyddyn.

4.4.2. Byddwn yn annog staff i fanteisio ar hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant hwn ar gael yn ystod oriau gweithio i staff

- sy'n cael gwersi Cymraeg sylfaenol ac,
- sy'n rheoli eraill, i gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

4.4.3. Byddwn yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff.

4.4.4. Byddwn yn darparu hyfforddiant cynefino i bob aelod newydd o staff, a bydd yn cynnwys modiwl i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

4.4.5. Bydd yr holl hyfforddiant a gynigir gennym i staff sy'n ymdrin â materion cyflogaeth allweddol, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen.

4.4.6. Byddwn yn cadw cofnod o nifer yr aelodau staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi a ddarperir yn Gymraeg a chanran y staff sy'n mynychu'r cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

4.4.7. Cyn inni drefnu digwyddiad hyfforddi, byddwn yn gofyn i staff a hoffent gael yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4.8. Ar ôl eu penodi, byddwn yn gofyn i bob aelod newydd o staff a hoffent gael unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'u hanghenion neu ofynion hyfforddi ac amcanion perfformiad yn Gymraeg. Gall staff newid y dewis hwn ar unrhyw adeg.

## 4.5. Adnoddau

4.5.1. Bydd hafan ein Mewnrwyd ar gael yn Gymraeg. Ar gael yn Gymraeg hefyd bydd y rhannau o'r Fewnrwyd sy'n berthnasol i'r defnydd o'r Gymraeg, cwynion a wneir gan staff a materion cyflogaeth. Lle bydd tudalen Gymraeg sy'n cyfateb i dudalen Saesneg ar gael, byddwn yn nodi'n glir bod y dudalen honno ar gael yn Gymraeg hefyd ac yn cynnwys dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg gyfatebol.

4.5.2. Bydd adnoddau a deunyddiau i helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg, safonau'r Gymraeg a dysgu Cymraeg hefyd ar gael ar ein Mewnrwyd.

4.5.3. Bydd pob aelod o staff yn cael eu dysgu i ddefnyddio templed dwyieithog ar gyfer ei llofnod e-bost a neges allan o'r swyddfa.

4.5.4. Byddwn yn darparu laniardau Iaith Gwaith i'r holl staff sy'n medru siarad Cymraeg i'w helpu i ddangos eu bod yn medru'r iaith.

## 4.6. Technolegau Cymraeg

4.6.1. I helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir a hyderus, byddwn yn

darparu'r meddalwedd canlynol i bob aelod o staff sy'n gofyn amdanynt:

- Cysill – gwirydd sillafu Cymraeg;
- Cysgeir – geiriadur Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg;
- Prawfddarllen Cymraeg Microsoft Office – gwirydd sillafu Cymraeg

### 4.7. Cyfieithu

4.7.1. Mae gennym Swyddog Cyfathrebu a Chyfieithu pwrpasol sy'n delio â phob cais i gyfieithu. Dylai staff gyflwyno ceisiadau drwy'r Ffurflen Cais am Gyfieithiad ar ein Mewnrwyd, gan sicrhau eu bod yn cynnwys y dyddiad cwblhau cywir ar gyfer y cyfieithiad. Os yw'r cais yn un brys a bod angen ei gwblhau o fewn y 2 ddiwrnod calendr nesaf, dylai staff e-bostio'r Tîm Cyfathrebu.

4.7.2. Bydd y Swyddog Cyfathrebu a Chyfieithu yn penderfynu a ddylai'r cais am gyfieithiad gael ei gontractio i wasanaeth cyfieithu allanol ynteu a ellir ei gwblhau'n fewnol.

## 5. Cwynion am Safonau'r Gymraeg

5.1. Rydym yn croesawu adborth ar sut yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a byddwn yn defnyddio hyn fel cyfle i ddysgu ac annog gwelliannau. Mae ein polisi ar sut i wneud sylw neu gwyno am ein gwasanaeth i'w weld yma.

5.2. Byddwn yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig a gawn sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau y mae dyletswydd arnom i

gydymffurfio â hwy. Byddwn yn cadw cofnod hefyd, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion a gawn sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

## 6. Monitro ac adrodd

6.1. Byddwn yn adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar sut yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn, a fydd yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol flaenorol, ar ein gwefan erbyn 30 Medi bob blwyddyn.

## 7. Adolygu

7.1. Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 mlynedd a'i gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol.

7.2. Cysylltwch â rheolipolisiau@ombwdsmon.cymru am unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon.